PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Adrodd ar y Bwlch Tâl rhwng Grwpiau Ethnig

2023-24

114246-04.24

**Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i fynd i'r afael â hiliaeth ac i gymryd camau gweithredol i fod yn wrth-hiliol. Ni fydd anghydraddoldeb hil yn diflannu heb ymdrech a chamau gweithredu parhaus i herio a dileu gwahaniaethu ar sail hil a gwella profiad staff a myfyrwyr sydd o leiafrifoedd ethnig. Er bod adrodd yn wirfoddol, byddwn nawr yn cyhoeddi ein Bwlch Tâl rhwng Grwpiau Ethnig ochr yn ochr â'r Bwlch Tâl rhwng y Rhywiau yn rhan o'n hymrwymiad i dryloywder a'n hatebolrwydd fel gweithle cynhwysol i ddeall lle mae angen i ni weithredu, ac i fonitro cynnydd.**

Rydym wedi defnyddio canllawiau'r llywodraeth sy'n nodi dull cyson o fesur gwahaniaethau tâl rhwng grwpiau ethnig, ac sy'n adlewyrchu'r dull a nodir yn y canllawiau ar gyfer adrodd ar y bwlch tâl rhwng y rhywiau. Fodd bynnag, mae adrodd ar dâl grwpiau ethnig yn llawer mwy cymhleth nag adrodd ar dâl y rhywiau.

Tra bod dadansoddi tâl y rhywiau yn cynnwys cymharu 2 grŵp yn unig, gall ddadansoddi tâl grwpiau ethnig gynnwys llawer mwy o grwpiau, yn dibynnu ar ba mor amrywiol yw'r gweithlu o ran ethnigrwydd. Rydym yn ymwybodol na all grwpio'r holl staff o gefndiroedd ethnig leiafrifol gyda'i gilydd gynrychioli profiadau gwahanol grwpiau ethnig yn deg, fodd bynnag, mae'r isafswm a argymhellir ar gyfer maint y grwpiau, sef 50 o weithwyr, yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddechrau adrodd drwy gymharu grwpiau Ethnig Leiafrifol, Dewis peidio â dweud, Gwyn, ac Anhysbys.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn paratoi cais am wobr Efydd Siarter Cydraddoldeb Hil ym mis Tachwedd 2024 a fydd yn cynnwys cynllun gweithredu 5 mlynedd. Bydd y cynllun gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth o hunanasesiad gan ddefnyddio dadansoddiad meintiol ac ansoddol o rwystrau sefydliadol a diwylliannol sy'n wynebu staff a myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig.

## Ein gweithlu


Mae ffigurau'r bwlch tâl rhwng grwpiau ethnig ym Mhrifysgol Aberystwyth yn seiliedig ar nifer y gweithwyr ar ddyddiad y ciplun ar 31 Mawrth 2024, a chyfanswm nifer y bobl a gyflogir yw 1,934 (gan gynnwys gweithwyr achlysurol) (2,025 yn 2023). Mae 87.2% o staff wedi datgan eu hethnigrwydd, a byddwn yn gweithio i wella ein data ar ystod o nodweddion gwarchodedig gan gynnwys ethnigrwydd.


| Ethnigrwydd | Rhif | % |
|---|---|---|
| **Anhysbys / Heb ei ddatgan** | 248 | 12.8% |
| **Lleiafrifoedd Ethnig** | 112 | 5.8% |
| **Asiaidd** | 53 | 2.7% |
| **Du** | 19 | 1.0% |
| **Cymysg** | **14** | **0.7%** |
| **Arall** | **26** | **1.3%** |
| **Dewis peidio â dweud** | **47** | **2.4%** |
| **Gwyn** | **1527** | **79.0%** |
| **Cyfanswm Staff** | **1934** | - |

## A oes bwlch tâl rhwng grwpiau ethnig ym Mhrifysgol Aberystwyth?

Mae'r bwlch tâl cymedrig a chanolrifol rhwng grwpiau ethnig yn seiliedig ar gyfradd tâl cyfartalog fesul awr ar gyfer grwpiau ethnig. Cyfrifir y tâl cymedrig (cyfartaledd) trwy adio'r holl gyfraddau tâl fesul awr ar gyfer pob un o'r grwpiau ethnig dynodedig, a rhannu'r cyfanswm â'r nifer ym mhob grŵp ethnig. Cyfrifir y canolrif (canol) trwy roi'r cyfraddau tâl fesul awr ar gyfer pob grŵp ethnig yn nhrefn eu gwerth a dod o hyd i'r gwerth canolig yn y rhestr o gyfraddau tâl fesul awr.

Yn unol â'r canllawiau, rydym yn cyflwyno'r cymedr a'r canolrif ar gyfer pob grŵp ethnig ynghyd â chymharu'r bwlch yn erbyn y grŵp ethnig gwyn.




*Noder: Fel cyflogwr cyflog byw gwirioneddol, bydd cynnydd sylweddol yn y gyfradd wedi dechrau cael effaith yn ystod y cyfnod adrodd hwn – bydd y gyfradd wedi bod yn £10.20 (rhwng Ebrill a Gorffennaf 2023) ac yna wedi cynyddu i £10.90 (rhwng Awst 2023 a Mawrth 2024).*

## Deall y bwlch?

Mae ffigur canran positif yn dangos bod gweithwyr sy'n perthyn i grŵp ethnig yn nodweddiadol, neu'n gyffredinol, yn cael cyflog is na gweithwyr sydd yn y grŵp gwyn. Mae ein data yn dangos bod gan staff yn y categori ethnig leiafrifol, neu y mae'n well ganddynt beidio â dweud, gyfraddau tâl cymedrig a chanolrifol uwch na'r rhai sydd yn y categori Gwyn.

Mae 98% o'r staff y mae eu hethnigrwydd yn 'Anhysbys/Heb ei ddatgan' yn y chwartel 'canol is' a'r chwartel 'is', sy'n cynnwys gweithwyr achlysurol, gweithwyr gwasanaethau'r campws a myfyrwyr ar raglen GwaithAber sydd fel arfer â chyfraddau cyfranogiad electronig a hunan-ddatgan isel. Mae'r bwlch tâl cymedrig (39.1%) a'r bwlch tâl canolrifol (41.5%) ar gyfer y garfan hon yn dangos bod gan y grŵp hwn gyflog sylweddol is o'i gymharu â'r grŵp ethnig Gwyn.

Roedd y tâl canolrifol yn is na'r tâl cymedrig ar gyfer y grŵp ethnig Gwyn (£20.36 i £18.90), tra nad oedd lleiafrifoedd ethnig (yn gyffredinol) yn amrywio cymaint (£20.81 i £20.39). Bydd cyfran fach o bobl yn y Grŵp Ethnig Gwyn sydd â thâl fesul awr uwch wedi sgiwio'r data ac yn golygu bod y cymedr yn uwch na'r canolrif.


Mae ffigur canran negyddol yn datgelu bod gan weithwyr sydd yn y grŵp ethnig gwyn yn nodweddiadol, neu'n gyffredinol, gyflog is na gweithwyr yn y grŵp lleiafrifol priodol.

Mae gan y grŵp Lleiafrifoedd Ethnig Fwlch Tâl Cymedrig o -2.2% a bwlch tâl canolrifol o -7.86% yn erbyn y Grŵp Ethnig Gwyn. Dylid trin hyn yn ofalus, o ystyried cyfran y staff yn y grŵp anhysbys/heb ei ddatgan, ond yn gyffredinol mae'n ystadegyn cadarnhaol.

## Chwartelau Tâl

Mae'r chwartelau tâl yn ôl grwpiau ethnig yn cael eu hasesu trwy restru ein gweithwyr perthnasol sydd ar dâl llawn o'r tâl uchaf i'r isaf, eu rhannu'n bedwar grŵp cyfartal ('chwartelau'), ac yna cyfrifo nifer a chanran y staff o'r gwahanol grwpiau ethnig ym mhob un o'r pedwar grŵp. Cyfran y staff ym mhob chwartel tâl, wedi'u rhannu yn ôl ethnigrwydd:

| Chwartel | Lleiafrifoedd Ethnig | Dewis peidio â dweud | Gwyn | Anhysbys / Heb ei ddatgan | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Chwartel Uwch** | 36 | 17 | 428 | 2 | 483 |
| **Chwartel Canol Uwch** | 29 | 15 | 438 | 2 | 484 |
| **Chwartel Canol Is** | 27 | 9 | 296 | 82 | 483 |
| **Chwartel Is** | 20 | 6 | 296 | 162 | 484 |
| **Cyfanswm** | **112** | **47** | **1,527** | **248** | **1,934** |





Mae cyfran a nifer y staff ethnig leiafrifol mewn chwartel ar ei uchaf yn y chwartel uwch (7.5%), ac mae ar ei isaf yn y chwartel is. Mae nifer o staff nad ydynt wedi datgan eu hethnigrwydd ac felly maent yn y grŵp 'Anhysbys / Heb ei ddatgan' (12.8%) sy'n effeithio'n sylweddol ar werthoedd yn y chwarteli 'Canol Is' ac 'Is', ac mae ein gwaith yn parhau i annog unigolion i rannu eu nodweddion gwarchodedig gyda ni er mwyn galluogi dadansoddiad gwell yn y dyfodol a nodi meysydd sydd angen eu gwella.


## Adrodd ar Daliadau Bonws y Grwpiau Ethnig

Mae'r Wobr Cyfraniad Unigol – a ddyfarnwyd ym mis Gorffennaf 2023 – yn daliad untro a ddyfernir i gydnabod perfformiad a chyfraniad eithriadol i'r Brifysgol. Mae'r taliad a ddyfernir yn seiliedig ar bwynt cyflog yr unigolyn ar y raddfa dâl a'r pwynt nesaf ar y raddfa dâl, (adrodd ar gyfer y cyfnod o 12 mis cyn dyddiad y ciplun statudol, sef 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024).

- Derbyniodd 4.5% o staff (123) Wobr Cyfraniad Unigol
- Derbyniodd 6.4% o'r staff (118) a ddatganodd bod eu hethnigrwydd yn wyn Wobr Cyfraniad Unigol
- Derbyniodd 2.2% o'r staff (3) a ddatganodd bod eu hethnigrwydd yn ethnig leiafrifol Wobr Cyfraniad Unigol.
- Derbyniodd 3.1% o'r staff (2) yr oedd yn well ganddynt beidio â datgan eu hethnigrwydd Wobr Cyfraniad Unigol
- Derbyniodd 0% o'r staff nad ydynt wedi datgan eu hethnigrwydd Wobr Cyfraniad Unigol

Yn unol â'r canllawiau, cyflwynwn y cymedr a'r canolrif ar gyfer pob grŵp ethnig a chymharwn y bwlch rhwng y grŵp ethnig gwyn. Mae'n bwysig nodi bod hyn yng nghyd-destun y niferoedd isel o unigolion sy'n derbyn gwobr, a'r nifer isel o staff o gefndir heblaw Gwyn.




Derbyniodd cyfran uwch o staff sy'n datgan eu bod yn perthyn i'r grŵp ethnig Gwyn (6.4%) daliad Wobr Cyfraniad Unigol o gymharu â staff sy'n datgan eu bod yn perthyn i'r grŵp Ethnig Leiafrifol (3.3%). Roedd y taliad cyfartalog yn uwch ar gyfer staff sy'n datgan eu bod yn perthyn i'r grŵp ethnig Gwyn (£400.78) na staff sy'n datgan eu bod yn perthyn i'r grŵp Ethnig Leiafrifol (£200), gan arwain at fwlch cymedrig o 50.1%, tra bod bwlch Canolrifol o 0%.

## Camau a Gymerwyd

Sefydlu Grŵp Gweithredu ar Hil i arwain yr hunanasesiad ar gyfer cais Gwobr Efydd Siarter Cydraddoldeb Hil - a ysgogwyd gan yr Arolwg ar Ddiwylliant Staff a myfyrwyr ym mis Chwefror a mis Mawrth 2023 i asesu ein diwylliant a nodi heriau yn ymwneud â chydraddoldeb o ran hil i lywio camau blaenoriaeth yn y dyfodol.

Penodi Swyddog Cydraddoldeb Hil.

Cyfyngu ar y duedd ar sail hil mewn prosesau recriwtio mewnol ac allanol â cheisiadau dienw wrth lunio rhestr fer.

Defnyddio datganiad gweithredu cadarnhaol mewn hysbysebion swyddi a deunydd recriwtio.

Sefydlu Grŵp Goruchwylio Strategol Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant sy'n cynnwys yr aelod o Weithrediaeth y Brifysgol sy'n cymryd cyfrifoldeb am hil ac ethnigrwydd - gyda llwybr adrodd ffurfiol ac aelodaeth ar gyfer yr holl rwydweithiau staff.

Cyflwyno cwrs e-ddysgu newydd 'Gadewch i ni siarad am Hil yn y Gweithle' i'r holl staff.

Cyflwyno hyfforddiant dewisol newydd i staff ar 'Ymwybyddiaeth Hiliol/Diwylliannol', 'Microymosodiadau' a 'Bod yn Wyliedydd Gweithredol'

Cyfarfodydd rheolaidd o'r rhwydwaith staff "Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol"

## Camau gweithredu ar gyfer y dyfodol

Paratoi a chyflwyno cais gyda chynllun gweithredu 5 mlynedd cysylltiedig ar gyfer **Gwobr Efydd Siarter Cydraddoldeb Hil.** Bydd hyn yn amlinellu'r cynllun, y camau gweithredu, y sawl sy'n gyfrifol am y camau gweithredu, a'r amserlen i hyrwyddo Cydraddoldeb Hil a'n camau tuag at fod yn wrth-hiliol yn weithredol.